Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Mary Swiffen-Walker
Manager
Wales Infected Blood Support Scheme

27 Mawrth 2025

Annwyl Mary

**Y Cynnydd Blynyddol (yn unol â CPI) i Gynllun Cymorth Gwaed Heintiedig Cymru a'r materion o ran y taliadau cysylltiedig**

Mae Cyfarwyddydau Cynllun Cymorth Gwaed Heintiedig Cymru (Diwygio) 2025 yn diwygio ymhellach Gyfarwyddydau Cynllun Cymorth Gwaed Heintiedig Cymru (Rhif 2) 2017 ("**Cyfarwyddydau Diwygiedig 2017**") er mwyn ei gwneud yn bosibl i daliadau cymorth perthnasol gael eu cynyddu, o 1 Ebrill 2025, yn unol â'r Mynegai Prisiau Defnyddwyr (CPI).

Fel y gwyddoch, yn ddiweddar, gosodwyd fersiwn ddrafft o Reoliadau y Cynllun Iawndal Gwaed Heintiedig 2025 ("**Rheoliadau 2025**"), y disgwylir iddynt ddod i rym ar 31 Mawrth 2025, gan Lywodraeth y DU. Mae crynodeb o Reoliadau 2025 i'w gael ar wefan Llywodraeth y DU. Byddwch yn ymwybodol, ymhlith pethau eraill, fod Rheoliadau 2025 yn darparu, mewn perthynas â Chynllun Cymorth Gwaed Heintiedig Cymru ("**WIBSS**"), y caiff y cyfrifoldeb am daliadau penodol o dan y cynllun cymorth eu trosglwyddo i'r Awdurdod Iawndal Gwaed Heintiedig ("**IBCA**") ar 15 Ionawr 2026 ("**y Dyddiad Trosglwyddo**").

Rydym wedi bod yn rhan o drafodaethau defnyddiol, ar sail y pedair gwlad, ar y diwygiadau sydd eu hangen i drefniadau gweinyddu'r IBSS i sicrhau trosglwyddiad di-rwystr i'r cynllun iawndal gwaed heintiedig newydd sy'n cael ei roi ar waith gan Reoliadau 2025. Fel rhan o hyn, rhaid darllen Cyfarwyddydau Diwygiedig 2017 a'r dogfennau cysylltiedig sy'n ymwneud â WIBSS mewn modd sy'n gyson â'r sefyllfaoedd a nodir yn Rheoliadau 2025. Er eglurder, roeddwn yn meddwl y byddai'n ddefnyddiol darparu crynodeb o rai o'r pwyntiau perthnasol.

1. **Personau cymhwysol:** O 1 Ebrill 2025, ni fydd unrhyw berson (1) nad yw wedi'i gofrestru â WIBSS; (2) nad yw eisoes wedi bod yn derbyn taliadau cymorth rheolaidd (a elwir fel arall yn daliadau ex gratia) gan WIBSS; ac (3) na wnaed cais am daliadau o'r fath mewn perthynas ag ef cyn 1 Ebrill 2025 a'i gymeradwyo gan Ymddiriedolaeth GIG Felindre, yn gymwys i gofrestru â WIBSS na derbyn taliadau gan WIBSS. Eithriad i hyn yw pan fydd person heintiedig sydd wedi'i gofrestru â WIBSS yn marw rhwng 1 Ionawr 2025 a 31 Mawrth 2025 (gweler pwynt 7 isod).

2. **Derbyn Iawndal gan IBCA:** Os, cyn y Dyddiad Trosglwyddo, yr hysbysir WIBSS bod person sydd wedi'i gofrestru â WIBSS wedi derbyn cynnig iawndal gan IBCA sydd wedi'i gyfrifo ar y sail na fydd IBCA yn gwneud

Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ
Ebost/Email:Catherine.cody@gov.wales

taliadau cymorth misol neu chwarterol mewn perthynas â'r person hwnnw ar gyfer y cyfnod ar ôl y Dyddiad Trosglwyddo ("**Cynnig Terfynol**"), yna rhaid i WIBSS roi'r gorau i wneud taliadau cymorth i'r person hwnnw ar yr adeg berthnasol cyn y Dyddiad Trosglwyddo sy'n ofynnol gan Reoliadau 2025 a/neu IBCA.

3. **Taliadau gan WIBSS:** Dylid ystyried bod unrhyw daliadau yng Nghyfarwyddydau Diwygiedig 2017 nad ydynt yn daliadau cyfandaliad ac sy'n daladwy ar gyfer y flwyddyn ariannol sy'n dechrau ar 1 Ebrill 2025, yn daladwy gan WIBSS ar sail pro-rata am ran o'r flwyddyn ariannol sy'n dechrau ar 1 Ebrill 2025 ac sy'n dod i ben ar ba bynnag ddyddiad a ganlyn sydd gynharaf: (1) y dyddiad pan fydd y person yn derbyn Cynnig Terfynol yn unol â Rheoliadau 2025; (2) 19 Ionawr 2026. Mae'n dilyn, pan fydd taliadau cymorth yn cael eu talu i fuddiolwyr yn fisol ymlaen llaw, dylai'r taliad olaf o WIBSS gael ei wneud ym mis Rhagfyr 2025 fan bellaf.

   Ni chaiff taliadau y cyfeirir atynt yng Nghyfarwyddydau Diwygiedig 2017 fel taliadau cyfandaliad untro ac sydd, yn ddarostyngedig i ddarpariaethau'r llythyr hwn, yn daladwy gan WIBSS ar gyfer y flwyddyn ariannol sy'n dechrau ar 1 Ebrill 2025 i bersonau sydd wedi'u cofrestru â WIBSS, eu hystyried yn rhai sy'n daladwy ar sail pro-rata.

   Er mwyn osgoi unrhyw amheuaeth, nid oes unrhyw symiau y dylid ystyried eu bod yn daladwy gan WIBSS drwy rinwedd Cyfarwyddydau Diwygiedig 2017 neu'r llythyr hwn ar ôl y Dyddiad Trosglwyddo.

5. **Taliadau cynnal plant yn ôl disgresiwn (a delir yng Nghymru a Lloegr yn unig):** Bydd y rhain yn parhau i fod yn daladwy gan WIBSS i'r personau perthnasol tan y Dyddiad Trosglwyddo neu, os yw'n gynharach, y dyddiad y bydd y buddiolwr heintiedig sydd wedi'i gofrestru â WIBSS (hawliad byw neu hawliad ystad) yn cytuno ar ei iawndal gan IBCA.

6. **Categorïau'r Taliadau:** Rhaid i daliadau cymorth gan WIBSS i fuddiolwyr heintiedig byw sydd wedi'u cofrestru â WIBSS fod yn seiliedig ar y categori taliad WIBSS perthnasol a oedd yn gymwys mewn perthynas â'r person hwnnw ar 31 Mawrth 2025. Ni fyddant yn gallu symud i gategori taliad WIBSS gwahanol ar ôl 31 Mawrth 2025 gan y bydd IBCA, mewn amgylchiadau penodol, yn cyfeirio at y categori a oedd yn gymwys i'r person ar y dyddiad hwnnw. Mae Rheoliadau 2025 a'r canllawiau cysylltiedig yn cynnwys rhagor o fanylion ynghylch hyn, gan gynnwys yr amgylchiadau a fyddai'n berthnasol pe bai cyflwr iechyd person heintiedig cymwys yn newid.

7. **Marwolaeth person cofrestredig:** Pan fydd person heintiedig sydd wedi'i gofrestru â WIBSS yn marw rhwng 1 Ionawr 2025 a 31 Mawrth 2025, yna bydd naill ai (1) ei briod neu ei bartner sy'n parhau'n fyw (fel y'i diffinnir gan Gyfarwyddydau Diwygiedig 2017); neu os nad oes gan y person hwnnw briod neu bartner sy'n parhau'n fyw (2) ei blentyn neu blant dibynnol, o fewn cyfnod o hyd at 3 mis ar ôl dyddiad y farwolaeth, yn gallu gwneud cais i WIBSS am daliadau perthnasol gan WIBSS.

Os yw person eisoes wedi'i gofrestru â WIBSS fel partner mewn profedigaeth a'i fod mewn perthynas sy'n cymhwyso â pherson heintiedig sydd wedi'i gofrestru â WIBSS sy'n marw rhwng 1 Ionawr 2025 a 31 Mawrth 2025 (h.y. bydd y partner mewn profedigaeth yn colli partner eilwaith) bydd ei daliadau yn cael eu haddasu i dderbyn categori taliad uwch, a bydd gan y person hwnnw 3 mis o ddyddiad y farwolaeth i wneud cais.

8. **Apelau:** Rhaid i bob apêl gael ei gwblhau gan WIBSS erbyn 31 Rhagfyr 2025.

Rwy'n gobeithio bod yr wybodaeth a ddarperir uchod yn ddefnyddiol – rhowch wybod imi os oes gennych unrhyw gwestiynau. Rhowch wybod imi hefyd os ydych yn dymuno i'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth presennol (2021) gael ei ddiwygio i adlewyrchu'r newidiadau hyn neu os yw Cyfarwyddydau Diwygiedig 2017 ar y cyd â'r llythyr hwn yn rhoi digon o wybodaeth ichi i lywio eich arferion gweithio.

Deallir y bydd WIBSS yn ysgrifennu at fuddiolwyr i'w hysbysu am y cynnydd yn y taliadau ac am yr holl newidiadau cysylltiedig i weinyddu WIBSS fel y bo'n briodol. Sicrhewch hefyd fod gwefan WIBSS yn cael ei diweddaru i ddangos beth yw'r sefyllfaoedd cywir a mwyaf cyfredol yn ôl yr angen.

Byddaf yn trefnu i Gyfarwyddydau 2025 a chopi o'r llythyr hwn gael eu cyhoeddi ar wefan Llywodraeth Cymru, a byddaf yn darparu dolen at y rhain ar y wefan ichi maes o law.

A gaf i fanteisio ar y cyfle hwn i ddiolch ichi am gymryd rhan ac am eich cyfraniad defnyddiol. Rwy'n edrych ymlaen at weithio'n agos gyda'n gilydd i wneud yr holl drefniadau angenrheidiol wrth i'r Dyddiad Trosglwyddo agosáu.

Yr eiddoch un gywir

Catherine Cody

Cc Rebecca Nelson (Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru)